

CYPE(5)-23-19 - Papur i'w nodi 1

**Julie Morgan AC/AM**  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf MA-L/JM/0484/19

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

1 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am nifer o bwyntiau y mae eich Pwyllgor wedi gofyn am eglurhad pellach arnynt yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth ar 12 Mehefin 2019.

Hyderaf y bydd y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth i chi barhau i graffu ar y Bil.

**Julie Morgan AC/AM**  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## ATODIAD

- 1. Gwybodaeth am y cysylltiadau a wnaed gyda rhieni, gan gynnwys manylion am y negeseuon a ddefnyddir mewn perthynas â rhianta, cyn pwynt cyn ysgol 3.5 mlynedd Rhaglen Plant Iach Cymru.**


Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi'r sesiynau cyswllt a drefnir y gallai plant a'u rheini eu disgwyl gan fyrddau iechyd, wrth drosglwyddo gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol (0-7 oed). Yn ystod y sesiynau cyswllt hyn, gall ymwelwyr iechyd roi adnoddau [Magu plant](#), [Rhowch amser iddo](#) priodol, sy'n darparu ystod o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ddatblygu'r ymennydd, defnyddio'r toiled neu'r poti, rheoli strancio, amseroedd bwyd ac amseroedd gwely. Mae [Naw Mis a Mwy](#) hefyd yn darparu ystod o wybodaeth i rieni gan gynnwys gwybodaeth am feichiogrwydd, bwydo ar y fron, diddyfnu, amseroedd bwyd, cysgu, rheoli strancio a dysgu sut i ddefnyddio'r toiled.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Rhaglen Plant Iach Cymru gael ei chynnig i bob plentyn a theulu. Mae'r rhaglen yn ategu'r cysyniad o gyffredinolïaeth gynyddol a'i nod yw nodi cyfres ofynnol o ymyriadau allweddol i bob teulu sydd â phlant o oedran cyn ysgol, ni waeth beth fo'u hangen. Bydd angen ymyrryd yn fwy er mwyn hwyluso cymorth mwy dwys ar gyfer rhai teuluoedd.

Nod y rhaglen yw cyflawni'r blaenoriaethau allweddol canlynol:

- Darparu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd o'r adeg y caiff plentyn ei genhedlu nes y bydd yn 7 oed, fel bod teuluoedd yn cael cymorth i wneud dewisiadau a fydd yn gwella eu hiechyd hirdymor (e.e. cyngor ar fwydo ar y fron a diddyfnu iach, smygu a chamddefnyddio sylweddau; ac atal Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod drwy roi cyngor ar gysgu'n ddiogel)
- Hyrwyddo bondio ac ymlyniad i gefnogi cydberthnasau cadarnhaol rhwng y rhiant a'r plentyn gan arwain at ymlyniad emosiynol sicr i blant (e.e. rhaglenni cymorth rhianta, gan gynnwys asesu a hyrwyddo rhyngweithio rhwng y rhiant a'r baban)
- Hyrwyddo iechyd a gwydnwch emosiynol cadarnhaol y fam a'r teulu (e.e. ystyried datblygiad y plentyn ac ystyried dylanwadau ehangach megis ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ph'un a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn a'r teulu er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.)
- Cefnogi a grymuso teuluoedd i wneud dewisiadau hyddysg er mwyn darparu amgylchedd diogel a magwrus (e.e. Newid cadarnhaol mewn ymddygiad (smygu, camddefnyddio sylweddau, deiet, iechyd deintyddol ac ati)
- Helpu plant i gyrraedd pob carreg filltir tyfu a datblygu a'u galluogi i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr ysgol.
- Cefnogi'r broses o bontio i amgylchedd yr ysgol.

- Amddiffyn y plant rhag clefydau plentyndod y gellir eu hosgoi drwy raglen imiwneiddio gyffredinol.
- Sicrhau y caiff problemau corfforol, metabolig, datblygiadol neu broblemau o ran twf eu canfod yn gynnar drwy raglen sgrinio gyffredinol briodol.



Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth fanwl am y disgwyliadau sy'n gysylltiedig â phob sesiwn gyswllt yn y canllawiau sy'n ategu'r rhaglen Plant Iach Cymru <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf>

## **2. Nodyn ar yr ymarfer mapio a gynhelir mewn perthynas ag argaeledd cymorth y blynyddoedd cynnar i rieni, i gynnwys manylion am y broses fapio, amserlenni a sut y caiff canfyddiadau eu datblygu**

Cynhelir yr ymarfer mapio yn ystod yr haf gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, er mwyn pennu cwmpas o ran pa gymorth i rieni sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru. Bydd canfyddiadau'r ymarfer yn pennu pa gymorth, cyngor a gwybodaeth rhianta ychwanegol sydd eu hangen, os o gwbl, er mwyn cefnogi'r newid mewn ymddygiad ochr yn ochr â'r Bil, yn ogystal â nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Cyflwynir adroddiad ar y canfyddiadau i mi erbyn diwedd mis Medi.

Caiff y canfyddiadau eu rhannu â'r Grŵp Rhianta Arbenigol, a fydd yn cynghori'r Grŵp Gweithredu ar ei ffrwd waith cymorth rhianta. Bydd y grŵp yn gyfrifol am ystyried a phennu pa wybodaeth a chymorth ychwanegol, os o gwbl, y gallai fod eu hangen ar rieni, y rheini sy'n gweithredu yn lle rhiant, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd. Cynhelir y cyfarfod cychwynnol yn ystod yr hydref, ar ôl i'r broses fapio gael ei chwblhau, a bydd yn cyfarfod yn rheolaidd o hynny ymlaen.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn ehangu'r cymorth rydym eisoes yn ei ddarparu drwy ymrwymo i ymestyn yr ystod oedran a gwmpesir gan ein hymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo, o 0-7 oed i 0-18 oed, er mwyn cefnogi rhieni a theuluoedd sydd â phlant hŷn. Byddwn yn defnyddio arbenigedd y Grŵp Rhianta Arbenigol i'n cefnogi yn y gwaith o ymestyn y cymorth, gan gynnwys datblygu adnoddau newydd yn ôl yr angen.

## **3. Y wybodaeth ddiweddaraf am waith diweddar Llywodraeth Cymru ar warediadau y tu allan i'r llys, gan gynnwys costau amcangyfrifedig.**

Mae'r penderfyniadau ynghylch defnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys yn gyfrifoldeb nad yw wedi'i ddatganoli. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau er mwyn ystyried ymyriadau cymesur ac addas.

Fel y dywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Mehefin, cynhaliodd y Grŵp Gweithredu Strategol ei gyfarfod cyntaf ar 14 Mai. Cytunodd y grŵp i sefydlu ffrwd waith ddynodedig er mwyn ystyried dargyfeiriadau a gwarediadau y tu allan i'r llys. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen hwn yn cyfarfod ar 11 Gorffennaf a bydd yn datblygu'r gwaith manwl hwn a gaiff ei oruchwylio gan y Grŵp Gweithredu Strategol. Mae amrywiaeth o opsiynau y bydd y grŵp yn eu hystyried, yn amrywio o daflen neu 'gwrs' e-ddysgu ar-lein i sesiwn grŵp wyneb yn wyneb. Bydd y costau'n amrywio yn dibynnu ar ba opsiwn neu opsiynau y cytunwyd arnynt.

Felly, mae darparu amcangyfrif cadarn o gostau cynllun dargyfeirio yn anodd ar y cam hwn am nad yw'r manylion am yr hyn a gaiff ei ddarparu; pwy fydd yn ei ddarparu a sut y caiff ei ddarparu, wedi'u pennu eto.

Er mwyn darparu'r costau bras isod, rydym wedi amcangyfrif y caiff tua 548 o unigolion eu cyfeirio at gynllun dargyfeirio bob blwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar

ragdybiaeth y bydd y ffigur amcangyfrifedig o 274 o achosion y mae'r heddlu yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd ar y lefel cosb resymol a nodir yn atodiad 7 i'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, yn cynyddu 100% ar ôl i'r Bil ddod i rym<sup>1</sup>. Mae paragraffau 8.34 i 8.36 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Seland Newydd a allai effeithio ar gyfraddau cosbi plant yn gorfforol; fodd bynnag, mae'r data hyn yn rhoi'r amcangyfrifon gorau posibl i ni o dan yr amgylchiadau presennol.

Mae'r opsiynau canlynol yn rhoi amcangyfrif cychwynnol o gostau blynyddol posibl gan ddbynnu ar ba opsiwn a ddewisir, os o gwbl:

- £8,000 ar gyfer 2,500 o gopïau yr un o'r tri llyfryn dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) sy'n briodol ar gyfer ystodau oedran gwahanol ac sydd wedi'u cyfieithu i 10 iaith gymunedol<sup>2</sup>;
- £118,000 ar gyfer cwrs hanner diwrnod sy'n seiliedig ar grŵp<sup>3</sup>;
- £45,000 i unigolion fanteisio ar gwrs rhianta ar-lein seiliedig ar dystiolaeth sy'n bodoli eisoes<sup>4</sup>.

Mae'r costau hyn yn seiliedig ar adnoddau a darpariaeth sy'n bodoli eisoes y gallai fod angen eu haddasu ac nad ydynt yn cynnwys costau'r heddlu na chostau gweithredol a gweinyddol eraill (e.e. ar gyfer monitro cydymffurfiaeth ag amodau). Gwneir gwaith pellach i bennu'r costau hyn gan y grŵp gorchwyl a gorffen perthnasol.

Rhaid bod yn ofalus wrth wneud rhagdybiaethau ac amcanestyniadau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r costau hyn, y bwriedir iddynt ond rhoi amcangyfrif bras. Bydd angen i'r modelau mwyaf priodol o ran trefniadau darparu, arwain, cyllido a darparu adnoddau, gael eu trafod drwy ein grŵp gorchwyl a gorffen dynodedig a gyda phartneriaid yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

---

<sup>1</sup> Mae'r cynnydd rhagamcanol o 100% yn seiliedig ar ddata gan heddlu Seland Newydd. Dangosodd y data, dros y pum mlynedd yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth a oedd yn atal cosb gorfforol, o gymharu â'r data gwaelodlin, fod nifer yr achosion o ymosodiadau ar blant y rhoddyd gwybod i'r Heddlu amdanynt, gan gynnwys smacio a mân gamau disgyblu corfforol, yn digwydd ddwywaith mor aml ar gyfartaledd bob chwarter nag oeddent cyn y ddeddfwriaeth (cynnydd o 100 y cant).

<sup>2</sup> Mae hyn yn seiliedig ar gost blwyddyn ariannol 18/19 o argraffu [llyfryn Cefnogi a thywys ymddygiad eich plant 'Magu plant. Rhowch amser iddo'](#) a'i gyfieithu i 10 iaith gymunedol. Byddem yn tybio y byddai angen 3 llyfryn gwahanol er mwyn darparu ar gyfer rhieni â phlant o oedranau gwahanol. Mae'r gost yn tybio y caiff y cynnwys ei ysgrifennu, ei lunio a'i gyfieithu i'r Gymraeg gan staff Llywodraeth Cymru. Dyfernir contract allanol i gyfieithu i'r ieithoedd cymunedol. Byddai copïau ychwanegol ar gael ar gyfer y blynyddoedd dilynol, am fod costau argraffu yn lleihau po fwyaf o gopïau a gaiff eu hargraffu.

<sup>3</sup> Mae hyn yn seiliedig ar [gwrs hanner diwrnod Calfass Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant \(WT4C\)](#) sy'n costio £150 y person. Mae'r cwrs hanner diwrnod yn helpu rhieni i ddeall y ffordd orau o weithio gyda'n gilydd er mwyn cefnogi eu plant ar ôl gwahanu. Nid yw'n addas ar gyfer ein hanghenion ond mae'n rhoi syniad o'r gost i ddarparu cwrs hanner diwrnod. Mae £35,000 hefyd wedi'i gynnwys yn y cyfanswm hwn er mwyn cyfrif am y gwaith o ddatblygu cwrs hanner diwrnod pwrpasol, costau amcangyfrifedig ar gyfer hyfforddiant a chyfieithu'r cynnwys a'r deunyddiau.

<sup>4</sup> Sail y gost hon yw'r ffi i gwblhau [ymyraeth rhianta seiliedig ar dystiolaeth Ar-lein Triple P](#). Mae'n cynnwys 8 modiwl sy'n ganolbwyntio ar strategaethau rhianta ac egwyddorion rhianta cadarnhaol. Y gost fesul cyfranogwr yw £72.00 ond mae ond ar gael yn Saesneg felly mae amcangyfrif ar gyfer costau cyfieithu hefyd wedi'i gynnwys. Nid yw darparu'r amcangyfrif hwn yn awgrymu y byddai'r cwrs ar-lein hwn o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio.

#### 4. Ffigurau sy'n ymwneud â pha mor aml y cafodd gwybodaeth 'ddi-euogfarn' ei datgelu, ac y disgwylir iddi gael ei datgelu.

##### **Nodyn yn rhoi rhagor o fanylion am y trafodaethau a gynhaliodd Llywodraeth Cymru â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas â'r Bil a datgelu gwybodaeth 'ddi-euogfarn'**

Fel yr esboniais yn fy nhystiolaeth a gyflwynais yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Mehefin, nid yw'r data di-euogfarn wedi'u cyfyngu i'r drosedd o ymosodiad cyffredin ar blentyn. Gall Tystysgrif Gwiriad Manylach gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd gynnwys gwybodaeth ddi-euogfarn berthnasol a chymesur (er enghraifft, manylion arestiadau, digwyddiadau lle na chafodd unigolion erioed eu harestio, eu cyhuddo na'u herlyn neu lle y'u cafwyd yn "Ddi-euog" mewn llys barn, o dan amgylchiadau penodol); yn ogystal â cholffarn a rhybuddiadau.<sup>5</sup> Mae gan yr heddlu gyfrifoldeb cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn unol â Rhan V o [Ddeddf yr Heddlu 1997](#) (adran 8). Byddai angen tystysgrif gwiriad manylach ar gyfer rhai swyddi megis gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed neu rolau mewn swyddi trwyddedig penodol neu swyddi cyfrifol (e.e. swyddogion yr heddlu, cyfreithwyr).

Cyflwynodd [Deddf Diogelu Rhyddidau 2012](#) nifer o drefniadau diogelu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth ddi-euogfarn. Mae'r [Canllawiau Datgelu Statudol](#) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref<sup>6</sup>, yn nodi'r egwyddogion y dylai prif swyddogion eu cymhwyso wrth benderfynu pa wybodaeth, os o gwbl, y dylid ei darparu i'w chynnwys mewn gwiriad manylach. Mae'r canllawiau yn cyd-fynd â'r [Fframwaith Sicrhau Ansawdd](#), sef proses safonedig o wneud penderfyniadau a chanllawiau manylach yn cwmpasu datgelu gwybodaeth heddlu lleol, a lunnir gan wasanaeth yr heddlu a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nod y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yw darparu proses safonol a llwybr archwilio ym mhob Uned Datgelu pan fyddant yn ystyried gwybodaeth i'w datgelu o dan 113B (4) o Ddeddf yr Heddlu 1997. Caiff cydymffurfiaeth yr Uned Datgelu â phroses y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ei hasesu gan yr Uned Safonau a Chydymffurfiaeth. Nodir trosolwg o strwythur a swyddogaeth y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn "[Quality Assurance Framework: An applicant's introduction to the decision-making process for Enhanced Criminal Record Checks](#)".

Cyn y caiff gwybodaeth a ddelir yn lleol ei datgelu gan yr heddlu, mae'n rhaid iddi lwyddo mewn profion penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Datgelu Statudol. Mae'r rhain yn ymwneud ag ystyriaethau o ran p'un a yw'r wybodaeth yn ddibynadwy ac yn berthnasol a ph'un a yw'n gymesur i ddatgelu'r wybodaeth o ystyried yr effaith debygol ar yr ymgeisydd. Rhaid i'r Heddlu gofnodi ei broses feddwl, ei "resymeg", ac esbonio sut a pham y daeth i bob un o'i gasgliadau a'i benderfyniadau. Caiff y wybodaeth ei hasesu gan y Prif Swyddog er mwyn pennu p'un a yw'n rhesymol credu ei bod yn berthnasol a ph'un a ddylid ei datgelu, yn ei farn ef. Dylid ond datgelu'r wybodaeth os yw'n bodloni'r ddau ofyniad hynny. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r effaith Hawliau Dynol o ddatgelu a pheidio â datgelu ar yr ymgeisydd ac ar y grŵp/grwpiau sy'n agored i niwed sy'n gysylltiedig â'r cais.

<sup>5</sup> Gweler Atodiad 5 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>6</sup> Y canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 113B(4A) o Ddeddf yr Heddlu 1997



Os yw'r heddlu yn datgelu unrhyw wybodaeth ddi-euogfarn fel rhan o wiriad manylach, gall yr ymgeisydd herio'r penderfyniad hwn drwy gyflwyno cais i'r Monitor Annibynnol<sup>7</sup>. Mae'r Monitor Annibynnol yn asesu p'un a oedd yr heddlu wedi cyflwyno cais i'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn gywir wrth brosesu cais. Yn unol ag adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 (Deddf 1997), mae'n rhaid i'r Monitor Annibynnol hefyd adolygu sampl o achosion lle y caiff gwybodaeth ddi-euogfarn ei chynnwys, neu beidio, ar dystysgrif cofnodion troseddol manwl. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau bod cydymffurfiaeth â Chanllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) wneud unrhyw newidiadau i'r broses hon. Byddai angen i unrhyw newidiadau gael eu gwneud o fewn cyfyngiadau deddfwriaeth sylfaenol y DU sy'n bodoli eisoes.

Yn dilyn y trafodaethau diweddar a gynhaliwyd rhwng fy swyddogion a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn y flwyddyn 18/19 yng Nghymru:

- Cafodd 2,582 o geisiadau manwl/safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu hanfon;
- O'r rhain, cafodd 2,536 neu 98.22% o'r rhain eu hanfon yn lân (h.y. nad oedd unrhyw wybodaeth o unrhyw fath wedi'i chofnodi);
- Cafodd 44 o geisiadau manwl/safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu hanfon a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gyhuddiadau/rhybuddiadau;
- Cafodd 2 gais manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu hanfon yn cynnwys data di-euogfarn (gwybodaeth a 'gymeradwywyd' gan yr Heddlu Lleol).

Am fod y data hyn yn berthnasol i bob trosedd ac nad yw'n gyfyngedig i 'ymosodiad ar blentyn', nid ydym yn disgwyl i'r Bil gael effaith sylweddol ar ddatgelu gwybodaeth 'ddi-euogfarn'.

## **5. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Bil hwn yn amddiffyn y plant ieuengaf na allant leisio eu profiadau?**

Mae'r Bil yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu amodau i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a'u galluogi i gyflawni eu potensial<sup>8</sup>. Mae [Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol](#) yn nodi'r blynyddoedd cynnar fel un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru gan dynnu sylw at y ffaith bod profiadau unigolyn fel plentyn yn rhan sylweddol o lywio ei ddyfodol ac ymrwymo i ddeddfwriaeth i wahardd cosbi plant yn gorfforol.

Fel yr amlinellir yn yr [Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant](#), mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (UNCRC). Mae'n cyd-fynd â blaengaredd Llywodraeth Cymru o ran pennu ein polisi ar gyfer plant a'u teuluoedd

<sup>7</sup> Fel y deddfwyd yn adran 82 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

<sup>8</sup> Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth *Symud Cymru Ymlaen – Uchelgais a Dysgu*

[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf)

yn gadarn yng nghyd-destun yr UNCRC. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth drwy'r [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#).

Fel y nodir yn yr [Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb](#), mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant rhwng dau a naw oed yn profi cosb gorfforol yn fwy aml na phlant o oedrannau eraill. Ymddengys bod defnyddio cosb gorfforol ar ei waethaf i blant rhwng tri a phump oed<sup>9</sup>.

Ni fydd amddiffyniad cosb resymol, sy'n berthnasol i weithredoedd rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid neu'r rheini sy'n gweithredu yn lle rhiant mewn unrhyw leoliadau nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan gynnwys manau dysgu, addoli, chwarae, hamdden, yn y cartref neu unrhyw leoliad arall, ar gael mwyach. Effaith gadarnhaol arfaethedig y Bil yw y bydd plant iau yn llai tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol ac felly caiff eu hawliau eu parchu a'u hamddiffyn rhag canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â chosb gorfforol.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddwn yn disgwyl i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys y rheini ym maes iechyd, addysg a gofal plant, fod yn ddigon ymwybodol o leisiau'r bobl ifanc a meddu ar ymwybyddiaeth o newidiadau mewn ymddygiad neu arwyddion eraill o drallod a allai awgrymu bod angen cymorth ychwanegol ar deulu. Fel sy'n wir nawr, rwy'n disgwyl i'r cyfryw staff ddilyn gweithdrefnau sefydledig os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ifanc. Nid yw'r Bil yn newid hynny.

Caf sicrwydd gan leoliadau gofal plant ac ymwelwyr iechyd fod ein [hadnoddau 'Magu plant. Rhowch amser iddo](#) yn cael eu cynnig i rieni ar gamau priodol o ddatblygiad eu plentyn. Mae'r rhain yn rhoi cyngor i rieni ar rianta cadarnhaol ac amrywiaeth o bryderon rianta cyffredin gan gynnwys cyngor ar reoli strancio, defnyddio'r toiled neu'r poti a chnoi. Ynghyd â'r Bil, bydd gwybodaeth a chymorth wyneb yn wyneb (h.y. drwy ymwelwyr iechyd, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf) yn helpu i hyrwyddo newid diwylliant o ran lleihau derbynoldeb cosb gorfforol a'i defnydd dilynol ar unrhyw blentyn, o unrhyw oedran yng Nghymru.

## **6. Pa asesiad a wnaed ynghylch p'un a fydd y Bil hwn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, yn enwedig menywod sy'n agored i niwed, o ystyried mai nhw yw'r prif ofalwr mewn llawer o achosion?**

Mae'r [Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb](#) yn darparu asesiad manwl a thrylwyr o effeithiau'r Bil ar amrywiaeth eang o unigolion â nodweddion gwarchoddedig a nodweddion eraill, gan gynnwys menywod.

Mae rhywfaint o waith ymchwil wedi ystyried p'un a yw mamau a thadau yn amrywio yn eu defnydd o gosb gorfforol. Ymddengys bod y dystiolaeth ychydig yn anghyson, ond un canfyddiad cyffredin a nodir yn y llenyddiaeth yw bod mamau yn fwy tebygol o ddefnyddio cosb gorfforol na thadau. Fodd bynnag, gall rhai gwahaniaethau ddigwydd am fod rhywfaint o'r gwaith ymchwil wedi'i gynnal cryn dipyn o amser yn ôl, pan oedd mamau'n dueddol o fod â mwy o rôl gofalu ac felly, o gymharu â'r tadau, yn treulio mwy o amser gyda'u plant<sup>10</sup>. Mewn adolygiad cynhwysfawr o waith

<sup>9</sup> Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhestr lawn o gyfeiriadau

<sup>10</sup> Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhestr lawn o gyfeiriadau



ymchwil ar ddisgyblu plant yn gorfforol gan [Brifysgol Otago](#)<sup>11</sup>, er enghraifft, cynhaliwyd llawer o'r ymchwil a nodwyd ar ddiwedd y 1990au. Daeth Nobes et al (1999)<sup>12</sup> i'r casgliad, yn hytrach na gwahaniaethu rhwng mam a thad, fod y defnydd o gosb gorfforol yn ymwneud â rolau'r rhieni. Pan oedd y rolau hyn yn fwy 'cyfartal' roedd rhieni yn rhoi cosb gorfforol i'r un graddau.

Er bod gwaith ymchwil wedi nodi nodweddion penodol rhieni neu blant fel ffactor risg wrth ddefnyddio cosb gorfforol, mae penderfyniad rhiant i ddefnyddio cosb gorfforol yn gymhleth. Gall ddibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys dewis personol a phrofiad; strwythur teulu; y plentyn a'r oedolyn unigol; straen a normau cymdeithasol/diwylliannol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod cyfyngiadau rhywfaint o'r gwaith ymchwil ynghylch cosb gorfforol rhieni sy'n faes sensitif a chymhleth. Mae llawer o astudiaethau yn dibynnu ar hunangofnodi ôl-weithredol gan rieni, gan ei gwneud yn anoddach i fesur y defnydd o gosb gorfforol yn gywir. Hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o'r astudiaethau wedi'u cynnal yng Nghymru ac efallai na fydd y canfyddiadau yn trosglwyddo i gyd-destun Cymru o reidrwydd.

Effaith gadarnhaol y Bil yw y byddai pob plentyn, ni waeth beth fo rhyw ei riant nac unrhyw nodwedd arall, yn cael yr un amddiffyniad rhag cosb gorfforol os caiff y ddeddf ei phasio.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni sy'n cynnwys opsiynau amgen i gosb gorfforol. Fel rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth, caiff cymorth rhianta presennol ei hyrwyddo i rieni drwy'r ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo' a mentrau eraill.

Mae ein [canllawiau ar Gymorth Rhianta](#) yn cynnwys adrannau penodol sy'n tynnu sylw at broblemau a wynebir gan rieni y gall eu sefyllfa olygu eu bod yn agored i niwed (e.e. rhieni sydd wedi profi cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl neu am eu bod yn ifanc) Mae'r canllawiau yn darparu strategaethau ymarferol i'r rheini sy'n darparu cymorth rhianta er mwyn eu helpu i addasu gwasanaethau i sicrhau y caiff anghenion rhieni eu diwallu.

---

<sup>11</sup> Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," Adolygiad o Lenyddiaeth Gwaith Ymchwil ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Plant gan y Ganolfan Materion Plant, Prifysgol Otago.

<sup>12</sup> Nobes, G., Smith, M., Upton, P., & Heverin, A. (1999). "Physical punishment by mothers and fathers in British homes". *Journal of Interpersonal Violence*, 14(8), 887-902 - gwaith ymchwil a nodwyd yn Smith et al (2005) – darperir cyfeiriad ato yn nhroednodyn 11.

7. **Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Bil hwn yn nodi: "...mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig y gall plant o rai grwpiau ethnig gael eu cosbi'n gorfforol yn amlach oherwydd tarddiad ethnig neu ddiwylliannol eu rhieni"; "Mae rhieni o leiafrifoedd ethnig yn wynebu nifer o rwystrau gwahanol i fanteisio ar wasanaethau, gan gynnwys gwahaniaethu, rhwystrau iaith a diwylliannol a diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau a sut i gael gafael arnynt" a bod teuluoedd sy'n Sipsiwn a Theithwyr "yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau oherwydd ofn stigma a rhagfarn, diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau, a sgiliau llythrennedd cyfyngedig o bosibl." A fyddai Llywodraeth Cymru cystal ag amlinellu pa mor sylweddol yw'r mater hwn yn ei barn hi, a darparu enghreifftiau ymarferol o sut y bydd yn mynd ati i liniaru'r effeithiau posibl hyn?**

Rydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y Bil ar y bobl mewn grwpiau gwarchoddedig a sut y gellid lliniaru'r rhain, a chaiff hyn ei nodi'n fanwl yn yr [Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb](#).

Mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig y gall plant o rai grwpiau ethnig gael eu cosbi'n gorfforol yn amlach oherwydd tarddiad ethnig neu ddiwylliannol eu rhieni. Ar y cyfan, mae'r gwaith ymchwil a wnaed ar gam-drin a chosb gorfforol mewn grwpiau lleiafrifol ac ethnig yn amhendant ac yn aml yn anghyson. Gellir drysu ethnigrwydd â newidynnau eraill, megis statws economaidd-gymdeithasol, sy'n ei gwneud hi'n anodd nodi dylanwad statws grŵp ethnig<sup>13</sup>.

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob grŵp ethnig yn cael yr un amddiffyniad rhag cosb gorfforol os caiff y ddeddf ei phasio.

Mae ein rhaglenni cymorth i deuluoedd, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn defnyddio dull unigolledig a hyblyg ac wedi'i deilwra o gefnogi rhieni a hyrwyddo eu hymgysylltiad. Mae ein rhaglen rhianta '[Magu plant. Rhowch amser iddo](#)' yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i rieni ar annog ymddygiad cadarnhaol, rhoi hwb i hyder eu plentyn a chefnogi eu datblygiad. Darperir gwybodaeth drwy wefan ddynodedig, tudalen Facebook ac adnoddau argraffedig . Mae cyngor ar bryderon rhianta cyffredin gan gynnwys cyngor ar reoli strancio, amseroedd gwely, amseroedd bath a defnyddio'r toiled neu'r poti ar gael mewn deg iaith gymunedol lleiafrifol.

Mae ein canllawiau ar Gymorth Rhianta yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y dylid darparu cymorth rhianta. Mae'r canllawiau yn tynnu sylw at strategaethau ymarferol i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â rheini sy'n llai tebygol o fanteisio ar gymorth, gan gynnwys y rheini o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr a grwpiau ethnig eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes ac asiantaethau dibynadwy sy'n gweithio gyda rhieni o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith ac i ystyried p'un a oes angen cymorth, cyngor a gwybodaeth ychwanegol.

---

<sup>13</sup> Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhestr lawn o gyfeiriadau

Yn ein gwaith cyfathrebu, byddwn yn ystyried negeseuon effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gydnabod lle mae gan unigolion anghenion gwahanol, yn hytrach na disgwyl y bydd un neges yn gweithio i bawb.